

MARWOLAETH—AI DYNA'R DIWEDD?

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i ddeall cyflwr anobeithiol y byddai dynol-ryw yn ei wynebu oni bai fod Jehofah wedi darparu'r priddwerth a'r Deyrnas. Tynnwch sylw at yr angen i roi ffydd yn y gwirioneddau sy'n cael eu trafod yn y Goffadwriaeth

"MARW YW TYNGED PAWB" (7 mun.)

Mae miliynau o bobl yn marw yn fyd-eang bob blwyddyn

Mae ymdrechion rhai i gysuro'r sawl sy wedi cael profedigaeth yn aml yn adlewyrchu'r gred bod y meirw'n dal i fyw yn y nefoedd neu rywle arall

Mae'r hyn mae pobl yn ei gredu yn amrywio'n fawr (*bh* 57-58 par. 3-4)

Mae hyd yn oed y rhai sy'n honni bod marwolaeth yn naturiol yn ei chael hi'n anodd derbyn mai marwolaeth yw diwedd y cyfan

Mae'r Beibl yn cyfeirio at ddiwedd bywyd fel "marw yw tynged pawb" [Darllenwch Pregethwr 7:2]

Ond ai marwolaeth yw diwedd y cwbl?

YSTYR MARWOLAETH (7 mun.)

Mae marwolaeth yn gwrthdroi'r broses a ddisgrifir yn Genesis 2:7 [Darllenwch]

Mae anadlu yn peidio; mae grym bywyd yn dod i ben; mae pob meddwl yn diflannu (Sal 146:4)

Dydy statws marwolaeth dynion ddim yn uwch na marwolaeth anifeiliaid; mae'r ddau yr un fath (Pre 3:19, 20)

Mae marwolaeth yn rhoi diwedd ar gyfathrebu, emosiwn, meddwl, a bodolaeth yn gyfan gwbl (Pre 9:5, 6, 10)

Mae hyn yn ein poeni, ac am reswm da—cawson ni ein creu i fyw am byth (Pre 3:11)

Cawn reswm da i obeithio drwy'r gwirioneddau a glywon yng nghoffadwriaeth flynyddol marwolaeth Crist

NID OEDD MARWOLAETH IESU YN DDIWEDD IDDO (9 mun.)

Cosb pechod yw marwolaeth (Rhu 6:23)

Roedd Iesu'n ddibechod

Felly, fe gadwodd yr hawl gyfreithiol i fywyd diddiwedd fel dyn (In 10:18; Act 2:24; *bh* 51-53 par. 13-16; *bh* 73-74 par. 22; *w80-E* 7/15 28 par. 25)

Ar ôl ei atgyfodiad i'r nefoedd fel ysbryd-greadur, cyflwynodd Iesu werth ei fywyd dynol perffaith (1Pe 3:18)

Felly mae'r ddyled sydd arnoch chi a minnau i Jehofah am fod yn bechaduriaid wedi ei thalu (2Co 5:14, 15)

Nawr mae sail dros symud sgil effeithiau pechod rydyn ni wedi eu hetifeddu

Ydy Jehofah yn cynnig maddeuant cyffredinol yn seiliedig ar y priddwerth?

Nac ydy; mae angen ufudd-dod (In 3:36)

Daliwch ati i ddod i adnabod Jehofah Dduw a Iesu Grist yn well, a gweithredu'n unol â hynny (In 17:3)

Mae'r ffaith bod Jehofah wedi rhyddhau Iesu o'r bedd yn rhoi 'sicrwydd i bawb' fod Dydd Barn Duw am ddod, ac yn cadarnhau y bydd atgyfodiad (Act 17:31; 24:15)

BETH BYDD "Y DIWEDD" YN EI OLYGU I CHI (7 mun.)

Ydy marwolaeth yn rhoi diwedd ar bopeth?

Fe fyddai hynny'n wir, oni bai am Dduw a Iesu Grist

Er bod dynion wedi cynyddu yn eu galluoedd mewn technoleg a gwyddoniaeth ni allan nhw greu bywyd na'i adfer (*w99-E* 10/15 5 par. 3-4)

Dim ond Jehofah sy'n gallu gwneud y pethau hynny

Yn yr oes a fu, dangosodd gweision Duw eu bod yn credu yn yr atgyfodiad (Job 14:7-15; Da 12:13)

Dangosodd Iesu awydd Duw a'i allu i atgyfodi'r meirw (Lc 7:11-17; 8:49-56; In 11:38-44)

Nawr bod hen ddigon o amser wedi mynd heibio i bawb cael gweld canlyniadau anufudd-dod i'w ddeddfau, mae'r awr apwyntiedig yn agosáu ar garlam i Dduw gywiro materion ar y ddaear

Mae hynny'n cynnwys atgyfodi'r meirw a thywys dynol-ryw i fywyd tragwyddol ar y ddaear (*we* 27-30)

Gan fod pwrpas Jehofah i atgyfodi ei weision mor sicr gellir sôn amdanynt fel eu bod yn fyw (Mth 22:31, 32; *cf-E* 106-107 par. 20-21)

Bydd byw am byth yn rhoi cyfleoedd di-rif inni ddarganfod mwy am Jehofah Dduw a mwynhau cyfeillgarwch gyda bob un sydd yn ei garu (Job 26:14; Pre 3:10, 11; *gf* 31)

Gwasanaethwch Jehofah yn ffyddlon, a byddwch yn derbyn bendithion hyfryd nawr ac yn y "diwedd fydd bywyd tragwyddol" (Rhu 6:22)

(Glynwch yn glôs wrth yr amlinelliad hwn, a chadwch at yr amser a bennwyd ar gyfer pob adran. Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun. Gweler y llyfr *Ministry School*, tt. 52-54, 166-169)

Rhif 184-W 7/12

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2012 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania

Cedwir Pob Hawl